Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Sirol Radnor Valley
# Maesyfed
# Llanandras
# Powys
# LD8 2SS

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
## a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 27/08/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Radnor Valley wedi ei lleoli mewn ardal wledig ar gwr pentref Maesyfed yn sir Powys. Ar hyn o bryd, mae 75 o ddisgyblion ar y gofrestr. Caiff disgyblion eu derbyn i'r dosbarth meithrin ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae bron pob disgybl o gefndir ethnig gwyn. Nid oes yr un o'r disgyblion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol bedwar o athrawon amser llawn ac un athro rhan-amser. Mae gan tuag 1% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n is na chyfartaledd Cymru (21%).

Mae'r ysgol wedi nodi bod gan tuag 19% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth dros dro yn 2013 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Chwefror 2008.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Sirol Radnor Valley yn 2013-2014 yw £3,494. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd ym Mhowys yw £10,978 a'r lleiafswm yw £3,102. Mae Ysgol Gynradd Sirol Radnor Valley yn safle 66 o'r 88 ysgol gynradd ym Mhowys o ran y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae bron pob disgybl yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel;
- mae staff yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu diddorol;
- mae bron yr holl addysgu o ansawdd da;
- mae gan yr ysgol systemau effeithiol ar waith i olrhain a monitro cynnydd disgyblion; ac
- mae'r amgylchedd dysgu o ansawdd uchel iawn.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r tîm rheoli'n darparu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac mae ganddo ddisgwyliadau uchel;
- mae'r corff llywodraethol yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn effeithiol;
- mae gan yr ysgol ddealltwriaeth dda iawn o anghenion ei holl ddisgyblion drwy hunanarfarnu effeithiol;
- mae'r cynllun gwella ysgol yn canolbwyntio'n dda ar wella deilliannau i ddisgyblion; ac
- mae cysylltiadau sydd wedi eu hen sefydlu ag ystod dda o bartneriaethau yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau i ddisgyblion.

## Argymhellion

A1 Parhau i wella medrau Cymraeg disgyblion

A2 Darparu profiadau dysgu sy'n bodloni'r ystod allu lawn ym mhob dosbarth yn gyson

A3 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 ysgwyddo'r cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain er mwyn datblygu'n ddysgwyr annibynnol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn ddysgwyr awyddus a brwdfrydig ac yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Yn eu gwersi ac wrth drafod eu gwaith, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn y maent wedi ei ddysgu mewn gwaith ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi datblygu eu medrau meddwl yn dda; maent yn caffael gwybodaeth yn briodol ac yn ei chymhwyso'n llwyddiannus i sefyllfaoedd newydd. Fodd bynnag, nid yw gallu disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu gwaith eu hunain, yn enwedig y rhai mwy galluog, wedi datblygu'n ddigonol.

Trwy'r ysgol gyfan, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau siarad a gwrando da. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando ac yn ateb cwestiynau â manylder addas. Mae llawer ohonynt yn siarad yn glir wrth siarad am eu gwaith. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae pob disgybl yn gwrando'n ofalus ar oedolion a'i gilydd cyn rhoi atebion meddylgar. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad yn hyderus, gan ddefnyddio brawddegau estynedig a datblygu ystod o eirfa.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae medrau dysgu cynnar disgyblion yn datblygu'n briodol. Maent yn deall bod ystyr i synau ac yn dangos diddordeb brwd mewn llyfrau. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen â graddau da o gywirdeb a dealltwriaeth. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen â mynegiant a rhuglder da o ystod eang o lenyddiaeth. Maent yn defnyddio uwch fedrau darllen brasddarllen a sganio yn effeithiol i ymchwilio i wybodaeth mewn llyfrau a thrwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o waith ysgrifenedig disgyblion yn cyfleu ystyr glir ac yn defnyddio geirfa briodol a diddorol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio priflythyren ar ddechrau brawddeg ac atalnod llawn ar y diwedd yn gyson. Mae eu syniadau'n datblygu mewn dilyniant o frawddegau cysylltiedig. Mae cywirdeb y rhan fwyaf o ddisgyblion mewn sillafu yn datblygu'n dda.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o waith ysgrifenedig disgyblion yn drefnus, yn ddychmygus ac yn glir. Gwnânt ddefnydd priodol o brif nodweddion ffurfiau ysgrifennu gwahanol, ac maent yn dechrau eu haddasu ar gyfer darllenwyr gwahanol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran atalnodi eu gwaith yn briodol. Fel arfer, mae llawer o ddisgyblion yn sillafu geiriau cyffredin yn gywir. At ei gilydd, mae ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn dda.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion iau yn cyfrif, trefnu a didoli rhifau i ddeg yn gywir. Mae bron pob un o'r disgyblion hŷn yn cofnodi ac yn cwblhau cyfrifiadau'n gywir gan ddefnyddio eu gwybodaeth am ddegau ac unedau i greu brawddegau rhif

adio a thynnu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dod o hyd i haneri a chwarteri mewn sefyllfaoedd ymarferol, yn defnyddio graffiau bar a diagramau i gynrychioli data'n dda, ac yn defnyddio unedau mesur safonol ar gyfer hyd yn gywir, er enghraifft wrth fesur eu traed eu hunain.

Mae safonau mewn gwersi mathemateg, yng nghyfnod allweddol 2, yn gyson dda ac mae disgyblion mwy galluog yn cyflawni'n dda iawn. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ar ddiwedd y cyfnod allweddol ddealltwriaeth gadarn o werth lle ac maent yn dangos dealltwriaeth dda o'r term gwrthdro fel gair mathemategol ar gyfer gwrthwyneb. Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrifo ffracsiynau, degolion a chanrannau'n dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o werth lle. Mae strategaethau datrys problemau ychydig o ddisgyblion o safon uchel. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymfalchïo mewn cyflwyno eu gwaith yn daclus, ac mae hyn yn helpu i sicrhau bod cyfrifiadau'n gywir. Maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn dda ar draws y cwricwlwm.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn Cymraeg. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddiadau ac yn dangos dealltwriaeth dda o Gymraeg achlysurol sy'n cael ei defnyddio gan staff. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn dechrau datblygu dealltwriaeth dda o'r hyn y maent wedi ei ddysgu ac yn ateb cwestiynau sylfaenol am y testun. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn Gymraeg yn symud ymlaen yn dda. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o ddiwylliant a threftadaeth Cymru yn dda.

Oherwydd y nifer amrywiol a bach, ambell waith, o ddisgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol, rhaid trin canlyniadau asesiadau disgyblion yn ofalus, oherwydd gall canlyniadau un disgybl gael effaith sylweddol ar berfformiad yr ysgol.

Yn y Cyfnod Sylfaen yn 2013, roedd perfformiad ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) a'r deilliant uwch (deilliant 6) yn rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu, a datblygiad mathemategol, o gymharu ag ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Bu gwelliant sylweddol yn y deilliant uwch ers y flwyddyn flaenorol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth, ac yn y 50% is ar gyfer Saesneg. Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch (lefel 5) yn rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer Saesneg a gwyddoniaeth, ac yn y 50% uwch ar gyfer mathemateg. Yn gyffredinol, yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar gyfer y pedair blynedd diwethaf ar y lefel ddisgwyliedig ac uwch wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf o ysgolion tebyg ym mhob pwnc.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a ffitrwydd ac yn cyflawni'n dda yn eu datblygiad personol a chymdeithasol. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod sut y gadw'n iach drwy fwyta'n gall a gwneud ymarfer corff yn ystod gweithgareddau corfforol.

Mae presenoldeb disgyblion wedi gwella dros y pum mlynedd diwethaf ac, am y ddwy flynedd diwethaf, wedi rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg. Mae prydlondeb yn dda.

Ar draws yr ysgol, mae gan bron pob disgybl gymhelliant i ddysgu. Maent yn ymgysylltu'n dda mewn gwersi ac yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae ymddygiad y tu mewn a'r tu allan i'r dosbarth yn dda iawn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos balchder yn eu gwaith ac yn ymwybodol o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae bron pob disgybl yn gwrtais i'r staff ac yn cyd-dynnu'n dda â disgyblion eraill.

Mae aelodau cyngor yr ysgol a'r eco bwyllgor yn deall eu rolau ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol. Maent yn teimlo eu bod wedi gwneud gwahaniaeth i fywyd yr ysgol, er enghraifft, pan wnaethant gyd-drafod â'r staff cinio i ddisgyblion allu dewis lle maent yn eistedd i fwyta eu cinio.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu i fodloni anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Mae'r cwricwlwm yn bodloni gofynion statudol y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae ystod y gweithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys clybiau ac ymweliadau, yn ymestyn ac yn cefnogi dysgu disgyblion yn dda. Mae gwaith cartref rheolaidd yn adeiladu'n bwrpasol ar yr hyn y mae disgyblion yn ei ddysgu yn y dosbarth. Mae cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu medrau cyfathrebu, rhifedd a TGCh yn gyson ar draws pob pwnc.

Mae athrawon yn cynllunio gwersi'n drylwyr ac yn cydweithio'n dda â'i gilydd i sicrhau dilyniant. Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o raglenni ymyrraeth pwrpasol i ddisgyblion mwy galluog a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae cynllunio ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn ddigon manwl a chynhwysfawr i fodloni gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion yn llwyddo i ennyn eu diddordeb a meithrin agweddau cadarnhaol. Gwna'r staff ddefnyddio priodol o Gymraeg achlysurol drwy gydol y diwrnod ysgol. Mae'r cysylltiadau cryf â'r gymuned leol ac ymweliadau i leoedd o ddiddordeb hanesyddol, crefyddol a daearyddol yn ymestyn gwybodaeth disgyblion am eu hardal leol, a hanes a diwylliant Cymru yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn gadarnhaol ar draws y cwricwlwm. Mae ganddi eco bwyllgor sefydledig, sy'n hyrwyddo byw'n gynaliadwy yn effeithiol.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon ym mhob dosbarth yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu mewn modd medrus ac yn cyflwyno gwersi mewn modd bywiog a brwdfrydig. Maent

yn dangos gwybodaeth bynciol dda ac yn cyfleu eu brwdfrydedd yn yr hyn y maent yn ei addysgu i'w disgyblion yn llwyddiannus. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad disgyblion.

Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Maent yn defnyddio holi medrus i annog disgyblion i feddwl yn feirniadol am bynciau ac i lunio a chyfiawnhau eu syniadau a'u barn eu hunain. Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu'n sicrhau bod disgyblion yn cymryd rhan lawn mewn gwersi. At ei gilydd, mewn gwersi a arsylwyd yn ystod yr arolygiad, roedd tasgau'n gweddu'n briodol i alluoedd gwahanol y disgyblion, ond nid oedd hyn yn cael ei adlewyrchu wrth graffu ar waith bob tro. Yng nghyfnod allweddol 2, nid yw disgyblion yn cael cyfleoedd effeithiol bob tro i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Mae'r holl staff yn darparu adborth llafar clir a chyson i ddisgyblion, sy'n eu helpu i ddeall sut i wella eu gwaith. Caiff gwaith ysgrifenedig disgyblion ei farcio'n rheolaidd ac, yn gyffredinol, mae sylwadau'n adeiladol ac yn nodi'n glir ffyrdd y gall disgyblion wella.

Mae asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn asesu gwaith disgyblion yn rheolaidd. Maent yn defnyddio system olrhain yr ysgol yn effeithiol iawn i nodi cynnydd disgyblion a chynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni o ansawdd da ac yn hysbysu rhieni'n dda am gynnydd eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad arbennig o dda i'w holl ddisgyblion. Caiff pwysigrwydd sut a pham y dylid cadw'n iach ei hyrwyddo'n llwyddiannus. Mae siop ffrwythau yn annog disgyblion i fwyta byrbrydau iachus ac mae dŵr ar gael drwy gydol y dydd. Mae'r cwricwlwm yn llawn cyfleoedd i ddisgyblion ddeall pwysigrwydd ffordd iach o fyw. Gwna'r ysgol drefniadau addas i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn cynnal gweithredoedd addoli ar y cyd dyddiol mewn awyrgylch o barch a pharchedigaeth. Mae staff yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion wybod y gwahaniaeth rhwng da a drwg drwy astudio eu hymddygiad eu hunain a gwerthoedd amrywiaeth o ddiwylliannau a chefndiroedd.

Mae darpariaeth ar gyfer gwrando ar bryderon disgyblion yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd y mae'r helpwyr buarth yn gwrando ar blant iau a'u cynorthwyo.

Mae gan yr ysgol system glir sydd wedi ei rheoli'n dda i nodi a bodloni anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae athrawon a staff cymorth yn defnyddio ystod eang o raglenni ymyrraeth priodol i helpu disgyblion symud ymlaen yn eu dysgu. Maent yn defnyddio cynlluniau addysg unigol disgyblion yn effeithiol i osod targedau clir, y maent yn eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r ysgol yn cydweithio'n

effeithiol â nifer o asiantaethau allanol i ddarparu cymorth ac arweiniad o ansawdd da i ddisgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol amgylchedd croesawgar a hapus iawn. Mae'n gymuned gynhwysol, lle gall pob disgybl fanteisio'n gyfartal ar bob agwedd ar ddarpariaeth yr ysgol. Mae pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae ystod eang ac amrywiol o adnoddau o ansawdd da i fodloni anghenion dysgu disgyblion. Gwneir defnydd llawn o adnoddau perthnasol ac, yn ogystal, gwna'r ysgol ddefnydd da o adnoddau cymunedol i gyfoethogi profiadau disgyblion.

Mae'r amgylchedd dysgu o ansawdd uchel iawn. Mae'r adeilad yn cynnig ystafelloedd dosbarth o faint da ar gyfer nifer y plant. Trwy'r ysgol gyfan, mae arddangosiadau diddorol a symbylol i gydnabod a dathlu llwyddiannau disgyblion.

Mae'r adeilad a'r cyfleusterau awyr agored yn ddiogel, ysgogol ac yn cael eu defnyddio'n greadigol gan bob disgybl. Cânt eu cynnal a chadw'n dda iawn.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y tîm rheoli weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol a ffocws priodol ar gynnal a gwella deilliannau i ddisgyblion. Mae'n cyfathrebu'r ffocws hwn ar safonau yn effeithiol i bob aelod staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion.

Mae gan bob aelod staff gyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir ac maent yn gweithio'n dda fel tîm. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio'n briodol ar ddeilliannau hunanarfarnu a meysydd i'w gwella. Mae'r rhain yn helpu'r staff i ddeall eu rôl o ran strategaethau'r ysgol a'u cyfrifoldeb dros gynnal a gwella safonau. Mae'r ysgol yn dadansoddi ei gwybodaeth asesu'n dda ac mae hyn yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer monitro perfformiad ar draws yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn frwdfrydig, yn gefnogol o waith yr ysgol ac yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda o sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion tebyg ac maent yn ymwybodol o brif flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Mae eu rôl o ran monitro safonau a darpariaeth, a herio'r ysgol fel cyfeillion beirniadol, wedi ei datblygu'n dda.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd y mae gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi eu hymgorffori'n llawn mewn gweithgareddau trawsgwricwlaidd. Mae'r cynlluniau'n glir ac yn canolbwyntio'n dda ar wella perfformiad disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn cyflwyno darlun cywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Gwna'r adroddiad ddefnydd da o dystiolaeth uniongyrchol fel dadansoddi data, craffu ar waith disgyblion a siarad â disgyblion. Caiff y deilliannau eu hystyried yn ofalus i benderfynu ar y prif flaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol.

Mae'r ysgol yn tynnu'n llwyddiannus ar safbwyntiau staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni. Bu gwaith cyngor yr ysgol yn allweddol o ran arwain at nifer o welliannau, er enghraifft y gwelliant diweddar i'r gemau buarth i ddisgyblion.

Mae cysylltiad clir rhwng canfyddiadau'r adroddiad hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae'r cynllun yn cynnwys ystod briodol o gamau gweithredu perthnasol ac yn enwi'r aelodau staff sy'n gyfrifol am eu cwblhau. Mae hefyd yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir a therfynau amser penodol ar gyfer cwblhau tasgau a'r trefniadau monitro i ymgymryd â nhw. Mae'r ysgol wedi llwyddo i sicrhau gwelliannau dros amser; mae hyn yn arbennig o amlwg ym mherfformiad gwell disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol â'i phartneriaid i gefnogi dysgu a lles disgyblion.

Mae cysylltiadau cryf iawn â rhieni a'r gymuned leol, ac mae'r ysgol yn elwa ar gyfraniadau a chymorth ariannol i wella adnoddau. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau ei chysylltiadau â'r cylch chwarae sy'n ymgynnull yn hen adeilad yr ysgol er mwyn meithrin polisi pontio ar y cyd. Mae hyn o fudd i'r plant sy'n dod o'r cylch chwarae i ddosbarth meithrin yr ysgol, ac yn sicrhau eu bod yn cael dechrau digynnwrf a hapus i'w cyfnod yn yr ysgol.

Mae cysylltiadau agos â'r teulu o ysgolion lleol. Mae aelodau staff yn cydweithredu'n effeithiol ar fentrau hyfforddiant ac yn cydweithio â'i gilydd yn briodol i gymedroli gwaith disgyblion er mwyn sicrhau cywirdeb asesiadau. Mae trefniadau da â'r ysgolion uwchradd partner yn galluogi disgyblion i drosglwyddo'n rhwydd i'r cyfnod nesaf yn eu dysgu. Mae'r cysylltiadau hyn yn cefnogi anghenion penodol disgyblion unigol yn dda drwy rannu arbenigedd staff a chyfleusterau dysgu. Er enghraifft, mae athro o'r ysgol uwchradd leol wedi gweithio ar weithgaredd gwyddoniaeth gyda disgyblion ym Mlwyddyn 6, a bydd y gwaith hwn yn parhau wedi iddynt symud i'w hysgol newydd ym mis Medi.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau da iawn ag ystod o sefydliadau cymunedol fel y chwarel leol, cartrefi gofal a chlwb garddio. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad disgyblion o ystod o weithgareddau gwahanol sy'n digwydd yn eu pentref.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan athrawon gymwysterau priodol ac ystod addas o brofiad ac arbenigedd i addysgu'r cwricwlwm. Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn cydweithio'n dda iawn

ag athrawon i gynorthwyo dysgu disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio arbenigedd aelodau staff yn effeithiol i gyfoethogi addysgu a dysgu. Enghraifft dda o hyn yw addysg awyr agored.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas i ddarparu amser cynllunio, paratoi ac asesu ar gyfer staff.

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadeiladau'n dda ac yn sicrhau bod cyflenwad digonol o adnoddau o ansawdd da i gynorthwyo addysgu a dysgu. Caiff effaith adnoddau ar addysgu a dysgu ei hadolygu'n rheolaidd a cheir cynllunio gofalus i fodloni anghenion adnoddau yn y dyfodol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol fel rhan o nifer o rwydweithiau o arfer broffesiynol ag ysgolion lleol. O ganlyniad, mae cynllunio Cymraeg achlysurol ar draws yr ysgol, a gweithgareddau rhifedd ar draws y cwricwlwm, wedi gwella.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli ac yn monitro adnoddau ariannol yr ysgol yn dda ac yn sicrhau eu bod yn cysylltu'n llawn â'r cynllun gwella. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian o ran deilliannau i ddisgyblion, ansawdd darpariaeth a defnyddio ei chyllideb.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Oherwydd y nifer amrywiol a bach, ambell waith, o ddisgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol, rhaid trin canlyniadau asesiadau disgyblion yn ofalus, oherwydd gall canlyniadau un disgybl gael effaith sylweddol ar berfformiad yr ysgol.

Yn 2013, roedd canran disgyblion y Cyfnod Sylfaen a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu, a datblygiad mathemategol, uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion tebyg. Roedd yn unol â chyfartaledd y teulu mewn datblygiad personol a chymdeithasol. Roedd perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch (deilliant 6) uwchlaw'r cyfartaled ar gyfer ysgolion eraill yn yr un teulu ym mhob maes.

O gymharu ag ysgolion tebyg, roedd perfformiad yn 2013 ar y deilliant disgwyliedig ac uwch yn rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf ym mhob maes. Bu gwelliant yn y deilliant disgwyliedig mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu, a datblygiad mathemategol, o'r flwyddyn gynt. Ar y deilliant uwch, roedd gwelliant sylweddol ym mhob maes.

Yn 2013, roedd canran y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig, sef lefel 4, mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. O gymharu ag ysgolion tebyg, roedd perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn ei rhoi yn y 25% uchaf o ysgolion, ac yn y 50% is ar gyfer perfformiad mewn Saesneg.

Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel 5 uwch mewn Saesneg a gwyddoniaeth uwchlaw cyfartaledd y teulu o ysgolion, ond ychydig yn is mewn mathemateg. O gymharu ag ysgolion tebyg, roedd perfformiad ar y lefel uwch yn rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer Saesneg a gwyddoniaeth, a'r 50% uwch ar gyfer mathemateg.

Yn gyffredinol, yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar gyfer y pedair blynedd diwethaf ar y lefel ddisgwyliedig ac uwch wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf o ysgolion tebyg ym mhob pwnc.

Yn y Cyfnod Sylfaen yn 2013, cyflawnodd pob disgybl y deilliant disgwyliedig ym mhob maes dysgu. Ar y deilliant uwch, perfformiodd bechgyn yn well na merched ym mhob maes.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2013, cyflawnodd pob disgybl y lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth, ond perfformiodd merched ychydig yn well mewn Saesneg. Ar y lefel uwch, perfformiodd merched yn well mewn Saesneg, ond roedd bechgyn yn well mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 44 | 44<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 44 | 43<br>98%<br>92% | 1<br>2%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 44 | 43<br>98%<br>96% | 1<br>2%<br>4% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 44 | 44<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 44 | 43<br>98%<br>96% | 1<br>2%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 44 | 44<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 44 | 44<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 44 | 44<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 44 | 43<br>98%<br>91% | 1<br>2%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 44 | 44<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 44 | 36<br>82%<br>77% | 8<br>18%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time. | 44 | 44<br>100%<br>84% | 0<br>0%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 25 | 16 | 9 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 64% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 25 | 16 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 64% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 24 | 13 | 11 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 54% | 46% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 24 | 13 | 11 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 54% | 46% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 23 | 6 | 17 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 26% | 74% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 25 | 11 | 13 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 44% | 52% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 25 | 13 | 12 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 52% | 48% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 24 | 9 | 13 | 2 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 38% | 54% | 8% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 24 | 15 | 8 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 62% | 33% | 4% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 24 | 14 | 10 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 58% | 42% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 25 | 12 | 13 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 48% | 52% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 23 | 9 | 13 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 39% | 57% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 24 | 12 | 12 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 24 | 19 | 5 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 25 | 10 | 13 | 1 | 0 | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 40% | 52% | 4% | 0% | | |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 24 | 12 | 12 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 21 | 11 | 7 | 0 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 24 | 11 | 11 | 2 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 46% | 46% | 8% | 0% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 25 | 16 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 64% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mervyn Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Mary Dyas | Arolygydd Tîm |
| Jeremy Turner | Arolygydd Lleyg |
| Aimee Field | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rosalind Beck | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.